



Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Llun 29 Ionawr, 2018.

Yn bresennol

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. E. Hopkins – yn cadeirio

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:-

C. Leyshon, J. Rosser, R. Yeo, M. Weaver, S. Rees-Owen

Swyddogion oedd yn bresennol:-

Mr C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr G. Isingrini – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Ms A. Batley – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau i Blant

Ms G. Davies – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant

Ms J. Thomas – Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth

Ms J. Davies – Rheolwr Gwasanaeth, Materion Diogelu a Chymorth

Ms T. Prosser – Rheolwr Gwasanaeth

Mr J McCabe - Rheolwr Carfan 16+

Ms M. Meredith – Rheolwr Gwasanaethau Preswyl

Ms H. Williams – Uwch Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol

Eraill oedd yn bresennol:-

Mr D. Melding AC, Rhanbarth De Cymru

Ms K. Benjamin – Rheolwr Rhanbarthol, 4C

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

37. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu'r Aelodau i'r cyfarfod a daeth ymddiheuriadau gan y Cynghorydd J. James, y Cynghorydd J. Rosser, C. Mann a Ms E. Phipps-Magil.

38. DATGAN BUDDIANT

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

39. COFNODION A MATERION SY'N CODI

PENDERFYNWYD:

a) Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, ar 26 Tachwedd 2017, yn rhai cywir.

40. MR DAVID MELDING AC - CADEIRYDD GRŴP CYNGHORI'R GWEINIDOG

Cyflwynodd y Cadeirydd Mr David Melding AC, Cadeirydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gwella Canlyniadau i Blant i gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Eglurodd Mr Melding AC fod Llywodraeth Cymru yn gyntaf wedi penderfynu ffurfio'r Grŵp yn dilyn dymuniad Mark Drakeford i fonitro'r system Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n Gadael Gofal. Fel Aelod Ceidwadol, dywedodd Mr Melding AC fod mater plant yn y system ofal yn anwleidyddol, ond yn hytrach yn bryder sy'n cael ei rannu gan yr holl Rieni Corfforaethol.

Prif ffocws y Grŵp Cynghori'r Gweinidog oedd lles Plant sy'n Derbyn Gofal ac i sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Roedd y Grŵp yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â rhifau, prosesau a ffyrdd o wella'r gwasanaeth gyda dulliau ataliol. Cafodd ei ddweud bod rhaglen waith fanwl a chadarn wedi'i datblygu i sicrhau bod targedau a graddfeydd amser yn cael eu bodloni. Pwysleisiodd Mr Melding AC bwysigrwydd y targedau a'r dangosyddion a oedd yn cadw momentwm y llif gwaith ac yn cyflwyno her i'r Grŵp. Ychwanegodd bod y targedau, fodd bynnag, yn rhesymol gan ei fod yn deall cymhlethdod achosion unigol.

Roedd aelodau'r Bwrdd yn falch o glywed bod gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau sy'n cael eu hamlinellu o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef cynllunio tymor hir a gwaith partneriaeth effeithiol. Cawson nhw eu hatgoffa o achlysur ar 8 Chwefror, 2018 i hyrwyddo pwysigrwydd rhianta corfforaethol ac i'r rhai sy'n mynychu ystyried sut y mae modd ymestyn ymwybyddiaeth o rianta corfforaethol ar draws gwasanaethau cyhoeddus a sut y mae modd i'r canllawiau presennol wella.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

Rhoddodd Mr Melding AC wybodaeth i'r Bwrdd am y pynciau a gafodd eu trafod yn helaeth gan y Grŵp Cyngori'r Gweinidog:

- Cymorth Therapi Emosiynol
- Dylanwad Lefelau Tlodi yng Nghymru
- Rhieni maeth a'r angen am weledigaeth i'w weld fel safon uchel
- Cyrhaeddiad Addysg a'r angen i gefnogi rhieni maeth wrth helpu'r plant gyda sgiliau sylfaenol

Cymerodd Mr Melding AC y cyfle i drafod gwaith RhCT a chanmolodd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol am ddatblygu arfer gorau yn y meysydd canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ac yn arbennig y gwahoddiad agored i Chris Dunn o Voices from Care a chynrychiolwyr y bobl ifainc a'r gwahoddiad i Mr Melding AC fynychu'r Bwrdd i annog perthynas waith agosach
- Y diwylliant o adrodd mewn ffordd dryloyw a chadarn ar amrywiaeth o faterion
- Yr adolygiad ynglŷn ag adrodd yn y Sector Annibynnol a gwella cysylltiadau
- Y monitro agos o leoliadau

Daeth yr Aelod Cynulliad i'r casgliad trwy gynghori'r Bwrdd bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £10 miliwn bellach yn y flwyddyn flaenorol i gefnogi pobl sy'n gadael gofal fel dull ataliol cynnar. Cafodd ei annog gan waith y Bwrdd a dywedodd fod y Grŵp Cyngori'r Gweinidog yn awyddus i gefnogi Awdurdodau Lleol i sicrhau bod pob asiantaeth yn cydweithio.

Cynghorodd yr Is-gadeirydd a'r Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc Mr Melding AC fod gan y Bwrdd aelodaeth, fel y Grŵp, nad oedd yn wleidyddol, yn cynnwys Cadeiryddion Craffu a oedd yn darparu trafodaethau cadarn er budd y plant a phobl sy'n gadael gofal o fewn gofal yr Awdurdod. Soniodd yr Aelod am yr ymweliadau gwerthfawr i leoliadau mewnol a gafodd eu cynnal drwy gydol y flwyddyn gan y Bwrdd a'r angen i gael gwell dealltwriaeth o'r sector Dibreswyl. Yn olaf, cyfeiriodd yr Aelod at y Rhaglen Teuluoedd Cydnerth a gafodd ei gweithredu'n ddiweddar yn Rhondda Cynon Taf a oedd yn gysylltiedig â gwaith y Grŵp Cyngori'r Gweinidog, gan mai ffocws oedd ymyrryd yn gynnar gydag aelodau o'r teulu yn ogystal â'r plant i gael mwy o effaith yn hwyrach ym mywyd y plentyn.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc ei hun i Mr Melding AC ac eglurodd, oherwydd gonestrwydd y swyddogion yn Rhondda Cynon Taf, roedd yr Aelodau'n gwybod sut i wella pan oedd nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynyddu. Hefyd, dywedodd yr Aelod fod Gweithgor ar y Cyd mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar yn cael ei chynnal gyda'r Pwyllgorau Craffu Plant a Phobl Ifainc ac lechyd a Lles. Cytunodd Mr Melding AC, gan ychwanegu bod perthynas dda rhwng swyddogion ac Aelodau yn darparu hyder, eglurder a chyfle i herio.

O safbwynt y swyddog, cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant fod adroddiad mewn perthynas â Deilliannau Addysgol

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei ddarparu bob blwyddyn sydd yn amlinellu cymhlethdod anghenion y plant. Cafodd ei egluro bod tîm o seicolegwyr ymroddedig yn gallu cefnogi'r plant yma, ond roedd mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn fater allweddol. Ychwanegodd y swyddog fod yr adran wedi gweithio'n agos gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau gweithredu strategol i wella canlyniadau i blant, gan gyfeirio at y 'Grant Amddifadedd Disgyblion'. Cytunodd Mr Melding AC fod addysg yn ffactor allweddol wrth wella canlyniadau i blant a bod gwella iechyd meddwl yn flaenoriaeth enfawr. Cyfeiriodd yr Aelod at y Model ACE a phwysigrwydd eu hatal yn y gymuned. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifainc y byddai adroddiad mewn perthynas â'r CAMHS yn cael ei drafod mewn cyfarfod ym mis Chwefror.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Grŵp, Plant a Phobl Ifainc a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant yr angen am well dealltwriaeth o pam yr oedd plant unigol wedi cael eu rhoi mewn gofal gan na fyddai niferoedd yn lleihau os oedd angen i'r plant fod yno. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Grŵp fod angen i asiantaethau herio ei gilydd i gael gwell canlyniadau.

Diolchodd Mr Melding AC i'r Bwrdd am eu sylwadau, gan esbonio y byddai'r rhain yn cael eu bwydo'n ôl i Grŵp Cynghori'r Gweinidog. Ailadroddodd yr Aelod, er mai'r rhagdybiaeth oedd y dylai'r niferoedd o blant yn y system leihau yn dilyn cryfhau'r system, roedd yn amlwg bod rhai anghenion yn gymhleth ac nid oedd yn bosib eu rhoi i mewn i gategori penodol.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Melding AC am y cyflwyniad cynhwysfawr, gan ddweud bod y mewnwelediad i gyfrifoldebau eang Grŵp Cynghori'r Gweinidog wedi bod yn ddefnyddiol. Yn ogystal â'r pwyslais a gafodd ei roi ar y gwasanaeth maethu, bu i'r Aelod gyffwrdd â'r gwasanaeth mabwysiadu a'r angen am recriwtio.

41. MONITRO SECTOR PRESWYL ANNIBYNNOL

Rhoddodd Ms Karen Benjamin, Rheolwr Rhanbarthol yng Nghonsortium Comisiynu Cymru ar gyfer Plant gyflwyniad i'r Bwrdd yn cynnwys yr wybodaeth y gofynnwyd amdani'n flaenorol mewn perthynas â chomisiynu lleoliadau allanol (Atodiad 1 y cofnodion).

Dysgodd aelodau'r Bwrdd fod y Consortium Comisiynu Cymru ar gyfer Plant yn rheoli Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer darparu Gwasanaethau Gofal Maeth a Fframwaith Cymru Gyfan ar gyfer darparu Gwasanaethau Gofal Preswyl i Blant a Phobl Ifainc, gyda 15 o Awdurdodau Lleol De a Chanolbarth Cymru yn rhan o'r broses.

Hysbysodd y Rheolwr yr Aelodau am y gwiriadau sicrwydd ansawdd cadarn a oedd wedi'u cynnal ar sail barhaus yn fisol, chwarterol a blynyddol i sicrhau bod safon uchel o wasanaeth yn cael ei gynnal. Cafodd yr Aelodau hefyd ddealltwriaeth glir o'r gwiriadau ansawdd gwahanol a gafodd eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol a Chonsortium Comisiynu Cymru ar gyfer Plant.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

Roedd aelodau'r Bwrdd yn falch o weld, er bod y sicrwydd ansawdd o safon uchel, roedd dulliau ar waith i sicrhau bod gwelliannau'n parhau i gael eu gwneud. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Gwella
- Rhannu Arfer Da
- Rhannu Ymchwil
- Argymell Cefnogaeth Cymheiriaid
- Ymweliadau Lleoliadau Gofal
- Hyrwyddo Cynhwysiant mewn Cysylltiadau Datblygu Aml-Asiantaeth

Cafodd ei ddweud bod trosiant uchel y staff yn dueddol o effeithio ar ansawdd ond bod cyfleoedd i staff ddatblygu a gwneud cynnydd.

Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Diogelu a Chefnogaeth ymlaen i roi gwybodaeth i'r Bwrdd mewn perthynas â Lleoliadau RhCT â Darparwyr nad ydyn nhw ar y Fframwaith. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth na chafodd y lleoliadau yma eu defnyddio oni bai na fyddai Lleoliadau sydd ar y Fframwaith ar gael a bod perthynas gref gyda'r darparwyr oherwydd yr amllder yr oedden nhw'n cael eu defnyddio.

Roedd Aelodau'r Bwrdd yn falch o glywed bod y gwiriadau a oedd wedi'u hadeiladu i mewn i'r system yn gyson a bod gan y gweithwyr gyfoeth o wybodaeth gyda dealltwriaeth glir o'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer y plant.

Hysbysodd y swyddog y Bwrdd y byddai Uwch Ymarferydd newydd yn cael ei benodi a'i ddyletswydd benodol fydd i ddatblygu sicrwydd ansawdd y lleoliadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau swyddog am eu cyflwyniad manwl a holodd sut y gallai'r Bwrdd gael mewnwelediad rheolaidd o'r pryderon a gafodd eu codi gan y Sector Preswyl Annibynnol, i fod yn gyson â monitro'r Sector Preswyl. Cytunodd y Bwrdd, er bod yr Aelod Cabinet perthnasol yn cael ei hysbysu'n rheolaidd o unrhyw faterion, byddai'n bwysig rhoi adroddiad yn ôl i'r Bwrdd, gan gynnwys cyd-destun pellach ynglŷn â nifer y Darparwyr Fframwaith/Nad ydyn nhw ar y Fframwaith. Byddai cyfle hefyd i hyn gael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu os bydden nhw'n dymuno hynny.

Yn dilyn rhagor o drafod, **PENDERFYNWYD:**

- a) Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol bob chwarter yn amlinellu'r cwynion a'r ganmoliaeth a gafodd eu derbyn mewn perthynas â'r Sector Preswyl Annibynnol.

42. DEFNYDDIO MIDWAY TRANSITIONAL CARE FEL DARPARWR NAD YW AR Y FFRAMWAITH

Cymerodd y Rheolwr Carfan 16+ oed y cyfle i roi rhywfaint o gefndir am Midway Transitional Care Ltd, cwmni Cymreig sy'n gweithredu o Sir Fynwy, i'r Bwrdd Rhianta

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

Corfforaethol. Cafodd ei egluro ei fod yn ddarparwr cymorth nad yw ar y fframwaith a heb wedi'i gofrestru a oedd ar hyn o bryd yn gweithio gydag ASGC tuag at gofrestru.

Roedd y swyddog yn cydnabod bod gan bobl ifainc ystod o anghenion ychwanegol, rhai ohonyn nhw'n cynnwys materion iechyd meddwl ac ymddygiadau peryglus. Felly, roedd llawer o sefydliadau yn ei chael hi'n anodd diwallu'r anghenion a darparu'r gefnogaeth barhaus y mae'r bobl ifainc hyn eu hangen. Cafodd ei ychwanegu ei fod yn well gan bobl dros 18 yn oed leoliad annibynnol ac roedd yr Aelodau'n cytuno bod angen gwranddo ar eu barn.

Cafodd ei egluro bod Midway yn darparu pecynnau gofal penodol i bob eiddo, yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn yn ôl asesiad; a chafodd yr Aelodau eu sicrhau fod swyddogion wedi cynnal nifer o ymweliadau i sicrhau bod safonau uchel wedi'u bodloni. Cafodd Aelodau'r Bwrdd eu cyfeirio at adran 4.2 yr adroddiad lle mae astudiaeth achos gadarnhaol wedi'i hamlinellu.

Cymerodd y swyddog y cyfle i roi gwybod i Aelodau am argymhellion y rhai sy'n Gadael Gofal ynglŷn â sut i wella'r gwasanaeth:

- Datblygu gwasanaeth mewnol
- Ehangu'r llety â chymorth a fflatiau hyfforddi

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad, gan gytuno bod y ddau fflat hyfforddi presennol yn ddarpariaeth ardderchog ac y byddai angen edrych arno yn y dyfodol.

Holodd un Aelod lle'r oedd y fflatiau. Mae un yn Aberdâr a'r llall yn Rhydfelen.

Cymerodd y Cyfarwyddwr Grŵp y cyfle i ddiolch i'r swyddog am adroddiad mor gynhwysfawr.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn a'r camau sy'n cael eu cymryd i fonitro'r defnydd o leoliadau Midway Transitional Care.

43. GWEFAN PLANT SY'N DERBYN GOFAL – GWAITH MONITRO A DATBLYGIADAU

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth, Diogelu a Chymorth wrth y Bwrdd fod datblygiadau pellach yn cael eu gwneud i wella'r Wefan Plant sy'n Derbyn Gofal a chyda chaniatâd y Cadeirydd, **PENDERFYNWYD:**

- a) Gohirio'r adroddiad i gyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol er mwyn i'r Aelodau roi sylwadau ar y fersiwn ddiweddaraf o'r wefan.

44. Y NEWYDDION DIWEDDARAF - PROSIECT BRIGHT SPOTS

Dywedodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant wrth y Bwrdd Rhianta Corfforaethol am brosiect ar y cyd rhwng Voice a'r Hadley Centre for Adoption a

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

Phrifysgol Bryste o'r enw'r Bright Spots Project. Byddai'r prosiect yn anelu at roi gwell dealltwriaeth i Awdurdodau Lleol o'r arferion sy'n cyfrannu at brofiad cadarnhaol o ofal.

Roedd y Bwrdd yn falch o ddysgu bod 410 o arolygon wedi'u hanfon at ysgolion, rhieni a phlant, gan gynnwys rhai rheini mewn lleoliadau y tu allan i'r Sir. Cafodd ei ddweud unwaith y byddai ymatebion wedi cael eu casglu, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Canmolodd y Dirprwy Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc y prosiect, gan bwysleisio pwysigrwydd llais y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

a) Nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.

45. GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – CWYNION A CHANMOLIAETHAU CHWARTEROL

Rhoddodd Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodeb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion statudol Gwasanaethau Cymdeithasol rhwng 1 Gorffennaf 2017 a 30 Medi 2017.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Dywedodd y swyddog y bu cynnydd mewn cwynion anffurfiol ond bod hyn yn debyg i Awdurdodau Lleol eraill gyda chynnydd yn nifer y plant sy'n barod i wneud cwyn. Roedd aelodau'r Bwrdd yn falch o glywed bod RhCT yn arwain y ffordd o ran y Cynnig Rhagweithiol.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch yr 16 cwyn a gafodd eu trin y tu allan i'r amserlenni a chawson nhw eu cynghori, er na chafodd rhai eu cwblhau o fewn yr amser statudol; o safbwynt yr achwynydd, cwblhawyd llawer o fewn amser rhesymol oherwydd y nifer parhaus o gyfarfodydd a gafodd eu trefnu ac ati.

Gofynnodd yr Aelodau am 22 o faterion staffio'r chwarter ac eglurwyd nad oedd modd rhoi rheswm unigol ar gyfer y nifer uchel ond yn aml; roedd disgwyliadau uchel o'r staff gyda llawer o'r oedolion yn camgymryd bod y gweithiwr yno i gefnogi eu hanghenion yn unig ac nid rhai'r plentyn.

Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai nifer y plant sy'n derbyn gofal yn debygol o weld y cynnydd mewn cwynion yn codi.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol

46. GWASANAETH EIRIOLAETH IEUENCTID CENEDLAETHOL

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

47. HWB DIOGELU AMLASIANTAETH CWM TAF – Y DIWEDDARAF

Dywedodd y Cadeirydd fod ymweliad â Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf wedi'i drefnu i'w gynnal ar gyfer Aelodau Etholedig yn dilyn y cyfarfod.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

48. CADW AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD ALLAN O'R CYFARFOD

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, o dan Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Bydd eglurder ymddygiad a gallu unigolion yn cael ei drafod a'i ystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, felly, oherwydd hynny, mae'n debygol na fydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

49. ADRODDIADAU O DAN REOLIAD 32

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 32 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynodeb o ganlyniadau'r arolygiad. **PENDERFYNWYD:**

- a) nodi cynnwys yr adroddiad.

O.N. Cymerodd y Rheolwr Cwynion y cyfle i ymestyn gwahoddiad i'r rhai oedd yn bresennol yn y Seremoni Wobrwyo Plant sy'n Derbyn Gofal a fyddai'n digwydd ar 8 Chwefror, 2018 yn yr Adeilad Bwrdeistrefol, Pontypridd.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:50am
Hopkins**

**Y Cynghorydd G.
Cadeirydd**